Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

amgueddfa cymru
national museum wales

# Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad

# 2022-25

# Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad 2022-25

## Cynnwys


1. Cyflwyniad 3

2. Egwyddorion Arweiniol 5

3. Cynnydd Hyd yn Hyn 6

   **Cyngor Celfyddydau Cymru** 6

   Amgueddfa Cymru 6/7

4. Cynllun Gweithredu 8

Atodiad 1: Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 21

Atodiad 2: Geirfa 23

# Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad 2022-25

## 1. Cyflwyniad

Cafodd y Cynllun Gweithredu hwn ei ddatblygu a'i gyhoeddi er mwyn mynd i'r afael yn uniongyrchol ag argymhellion yr Adroddiadau Ehangu Ymgysylltiad a gyhoeddwyd ar 19 Awst 2021. Cafodd y tri adroddiad a gomisiynwyd ar y cyd gan Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru eu llunio gan:

- Re:cognition, gan ganolbwyntio ar ardal dlawd led-wledig
- Richie Turner Associates, wnaeth ymgynnull tîm i ganolbwyntio ar bobl anabl a byddar
- Welsh Arts Anti-Racist Union (WAARU), wnaeth ganolbwyntio ar amrywiaeth ddiwylliannol ac ethnig.

Ffrwyth gwaith a gomisiynwyd gan Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yw'r adroddiadau, gyda'r nod o archwilio sut y gallwn ymgysylltu yn ehangach â'r cymunedau hynny yr ydym yn methu'n gyson â'u cynnwys yn ein gwaith trwy gyfrwng cyfres o sgyrsiau. Roedd pob adroddiad yn canolbwyntio ar gymuned benodol. Wrth i ni barhau i ddatblygu ein cynlluniau, byddwn yn defnyddio dull sy'n cydnabod croestoriadedd. Ein bwriad yw cynnal gwaith pellach yn canolbwyntio ar gymunedau sy'n wynebu anfantais, a thrwy'r cynllun hwn – a gweithgarwch ehangu ymgysylltiad yn y dyfodol – byddwn yn ceisio defnyddio dull gweithio sy'n cydnabod natur gydgysylltiedig pawb sy'n wynebu gwahaniaethu neu anfantais. Mae ehangu a dwysau'r ymgysylltiad â'r cymunedau hyn ar draws Cymru yn amcan allweddol yng Nghynlluniau Cydraddoldeb Strategol y ddau sefydliad (cynllun Amgueddfa Cymru, cynllun Cyngor Celfyddydau Cymru). Mae'r cynllun penodol hwn yn eistedd yng nghyd-destun ehangach ein gwaith ar gydraddoldeb.

Wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu ar y cyd hwn, rydym wedi gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ac wedi cydweithio ymhellach â'r tri chwmni ymgynghori a ddatblygodd yr adroddiadau. Rydym hefyd wedi ystyried ein rôl yn gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru a chyd-destun polisi ehangach ein gwaith. Er mai amcan pennaf y cynllun hwn yw rhoi argymhellion o'r adroddiadau ar waith, ein nod hefyd yw gweithio tuag at gyflawni a chefnogi Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, 2021 i 2026 (Rhaglen Lywodraethu: Diweddariad), a blaenoriaethau'r Cytundeb Cydweithio rhwng y Llywodraeth a Phlaid Cymru (Y Cytundeb Cydweithio).

Mae'r nodau llesiant a dulliau gweithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'u gwreiddio yn y cynllun. A ninnau'n gyrff cyhoeddus, y saith nod llesiant a'r pum dull gweithio a nodir yn y Ddeddf yw cyd-destun ein gwaith. Wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu, rydym wedi ystyried y ddogfen *Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol: arweiniad ac adnoddau ar gyfer cyrff cyhoeddus* a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae ehangu ymgysylltiad ag unigolion a chymunedau sy'n profi tlodi ac anfantais economaidd yn rhan ganolog o'n gwaith a'n strategaethau dros y deng mlynedd nesaf, a byddwn yn defnyddio'r fframwaith wrth i ni weithio tuag at Gymru fwy cyfartal.

Mae Datganiad Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (1948) yn cynnwys yr ymrwymiad canlynol "mae gan bawb yr hawl i gymryd rhan yn rhydd ym mywyd diwylliannol y gymuned". Mae rhoi'r ymrwymiad llywodraethol hwn ar waith yn ddemocrataidd yn dibynnu ar weithredoedd pob corff cyhoeddus, gan gynnwys Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Rydyn ni'n ymroi i ddatblygu dull ar gyfer y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth sy'n ymgysylltu'n rhagweithiol ag unigolion a chymunedau ar draws Cymru wrth benderfynu beth yw diwylliant, pryd mae'n digwydd, pwy sy'n ei greu a phwy sy'n ei brofi. Mae'r sgyrsiau a gafodd ein hymgynghorwyr â gwahanol gymunedau yn atgyfnerthu hyn. Cam cyntaf ar y daith o wireddu ein huchelgais yw'r cynllun hwn, trwy newid sut yr ydym ni – yn gyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am gelf, diwylliant a threftadaeth yng Nghymru – yn meddwl ac yn gweithredu.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at nifer o'r sialensiau a'r rhwystrau a wynebir gan unigolion a chymunedau wrth geisio ymgysylltu â'r celfyddydau, treftadaeth a diwylliant. Mae'r adroddiadau yn adlewyrchu lleisiau ymgyrchoedd Mae Bywydau Du o Bwys a Ni Chawn Ein Dileu a daflodd oleuni o'r newydd ar effaith hiliaeth ac ablaeth strwythurol sydd wedi bodoli yn y gymdeithas drwy'r trwch ac wedi atal ymgysylltiad â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth. Yn y tri adroddiad, clywir lleisiau'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, yn dweud wrthym yn glir am y rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth geisio creu a chael at y celfyddydau, treftadaeth a diwylliant.

Mae Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn credu y dylai diwylliant yng Nghymru adlewyrchu bywydau holl ddinasyddion y wlad. Mae pobl amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd, pobl niwroamrywiol, pobl fyddar ac anabl a phobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, yn enwedig y rheini mewn cymunedau ôl-ddiwydiannol, yn rhan ganolog o'n bywyd diwylliannol. Hanes Cymru yw'r hanesion hyn, a byddwn ninnau fel sefydliadau yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau eu bod wrth galon bywyd diwylliannol Cymru. Wrth symud y gwaith hwn yn ei flaen, ni fyddwn yn goddef hiliaeth nac ablaeth o unrhyw fath a byddwn yn gweithio tuag at sicrhau y caiff y cymunedau hyn eu cynrychioli yn llawn yn y gweithlu – yn bobl sy'n gwneud penderfyniadau, ymwelwyr, pobl sy'n creu, cyfranwyr ac yn gynulleidfaoedd.

## 2. Egwyddorion Arweiniol

Mae ein hegwyddorion arweiniol yn rhoi ffocws i'r hyn y gobeithiwn ei gyflawni wrth i ni roi'r Cynllun Gweithredu ar waith. Nodir y targedau manylach law yn llaw â mesurau eraill yn ein Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb Strategol.

Dyma'r egwyddorion, fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu:

### Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

- Mae'r Arweinyddiaeth yn cynrychioli'r boblogaeth.
- Mae'r Arweinyddiaeth yn wrth-hiliol, yn wrth-ablaidd ac nid yw'n goddef gwahaniaethu nac anghydraddoldeb o unrhyw fath.
- Mae prosesau yn eu lle sy'n galluogi cymunedau a rhanddeiliaid i'n dwyn i gyfrif am weithredu'r camau gweithredu hyn.

### Democratiaeth Ddiwylliannol

- Mae rhaglenni diwylliannol dan arweiniad cymunedau ac yn cael eu cynhyrchu ar y cyd â chymunedau.
- Mae'r Celfyddydau a Threftadaeth yn cynrychioli hanesion a chreadigrwydd cymunedau sy'n amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd, boed hynny mewn lleoliadau corfforol neu yn ddigidol.
- Mae adnoddau a rhaglenni ar gyfer ysgolion yn cefnogi cwricwlwm cynhwysol, gwrth-hiliol a gwrth-ablaidd.
- Caiff cymunedau eu grymuso i siapio a llywio eu profiadau diwylliannol eu hunain.
- Mae cyfleoedd am nawdd ac adnoddau celfyddydol yn decach ar draws Cymru.
- Caiff ymchwil ei lywio gan wybodaeth, arbenigedd a phrofiad bywyd pobl.

### Cydraddoldeb a'r Gymraeg

- Mae ein dulliau o weithio yn naturiol ddwyieithog, yn gynhwysol ac yn deg.
- Mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn naturiol ddwyieithog, yn gynhwysol ac yn deg.
- Dethlir amlieithrwydd ein gwlad.
- Caiff y defnydd o'r Gymraeg a chyfleoedd i ddysgu'r iaith eu cefnogi a'u hwyluso.

### Gwasanaethau Hygyrch

- Mae profiadau defnyddwyr, cynulleidfaoedd ac ymwelwyr yn gynhwysol ac yn diwallu anghenion pobl F/fyddar ac anabl.
- Caiff Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ei mabwysiadu yn drydedd iaith yn ein gweithgarwch cyhoeddus.
- Mae lleoliadau, amgueddfeydd ac adnoddau diwylliannol yn hygyrch.

### Datblygu'r Gweithlu, Hyfforddiant i Staff a Sgiliau

- Mae'r gweithlu yn cynrychioli'r boblogaeth.
- Mae gweithleoedd, mannau cyhoeddus a gwasanaethau yn llefydd diogel a chynhwysol.
- Mae'r gweithlu yn wrth-hiliol ac yn wrth-ablaidd ac nid yw'n goddef gwahaniaethu nac anghydraddoldeb o unrhyw fath.
- Caiff pobl ifanc ac artistiaid eu cefnogi i ddatblygu eu doniau trwy gyfleoedd gwaith.

### Cyfathrebu a Brandio

- Mae Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn hawdd eu hadnabod.
- Mae marchnata a brandio yn wrth-hiliol, yn wrth-ablaidd ac yn gynhwysol.

# 3. Cynnydd Hyd yn Hyn

Mae Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru eisoes yn bwrw ati gyda'r gwaith hwn, gan gymryd camau beiddgar ac arloesol i weddnewid eu dulliau gweithio a mynd i'r afael â'r rhwystrau y mae unigolion a chymunedau wedi dweud wrthym y maent yn eu hwynebu.

Mae rhaglenni, projectau a newidiadau sefydliadol cyffrous fel y rhai a nodir isod yn rhoi syniad o'r effaith ehangach a dwysach y gall y cynllun ei gyflawni:

**Cyngor Celfyddydau Cymru**

- Ar hyn o bryd, mae Camau Creadigol yn cefnogi 7 sefydliad trwy raglen datblygu busnes. Mae'r sefydliadau dan arweiniad pobl F/fyddar neu bobl anabl, neu dan arweiniad ymarferwyr o gefndiroedd amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd.
- Defnyddiwyd dull newydd a radical i benodi Asiant er Newid sydd bellach yn bwrw ati â newidiadau strwythurol a sefydliadol ar draws yr holl agweddau ar waith y sefydliad.
- Penodwyd Ysgogwr y Gymraeg fydd yn defnyddio dull radical a chroestoriadol wrth ei waith.
- Cynllun Cymru gyfan yw Hynt sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydol i sicrhau fod mynychu profiadau celfyddydol yn brofiad haws a thecach i bobl anabl a'u gofalwyr. Ar hyn o bryd, mae hawl gan ddeiliaid cerdyn Hynt i gael tocyn am ddim ar gyfer cynorthwyydd personol neu ofalwr ym mhob theatr neu ganolfan gelfyddydol sy'n cymryd rhan yn y cynllun.
- Trwy ein project Cynefin, sy'n rhan o raglen Dysgu Creadigol trwy'r celfyddydau, mae artistiaid amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd wedi bod yn cynnal projectau mewn ysgolion sy'n archwilio dysgu ac addysgu mewn perthynas â Hanes Du yng Nghymru. Gweithiwyd gyda 25 ysgol yn ystod y cam cyntaf.
- Rydym wedi adolygu ein prosesau dyfarnu grantiau er mwyn cynnwys artistiaid ac ymarferwyr creadigol yn y prosesau penderfynu ac wedi recriwtio carfan o Gydweithwyr Creadigol newydd i gefnogi ein gwaith.
- Trwy rownd recriwtio ddiweddaraf aelodau'r Cyngor, gafodd ei chynnal yn gynharach yn 2021, cynyddodd nifer yr aelodau sydd â phrofiad bywyd yn sylweddol.

**Amgueddfa Cymru**

- Rydym yn datblygu strategaeth sefydliadol newydd, Amgueddfa Cymru 2030, gyda'r nod o yrru ein gwasanaeth i Gymru ymlaen, ynghyd â'n cyfraniad at fywyd diwylliannol ein cenedl a'r ffyrdd y caiff Cymru ei chyflwyno yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae ymgysylltiad cymdeithasol wrth wraidd strategaeth ac mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad at gyfiawnder cymdeithasol ac adnewyddu cenedlaethol.
- Rydym yn cymryd camau gweithredu cadarnhaol er mwyn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn ein sefydliad, trwy'r dulliau canlynol:
    - gwarantu cyfweliad i ymgeiswyr mewnol ac allanol o gymunedau sy'n profi anghydraddoldeb hiliol a/neu bobl ag anabledd os ydynt yn diwallu meini prawf hanfodol unrhyw swydd

    - adolygu ein proses ymgeisio er mwyn ei gwneud yn fwy hygyrch a chynhwysol, llunio canllawiau ymgeisio a chynnig cymorth unigol gan aelod o'r tîm Adnoddau Dynol
    - cynnig teithiau anffurfiol o'n hamgueddfeydd, sesiynau galw mewn a galwadau ffôn er mwyn i ymgeiswyr ddeall mwy am y swyddi
    - bod yn gwbl glir yn ein dogfennaeth recriwtio ein bod yn croesawu trafodaethau am addasiadau rhesymol ar bob cam o'r broses recriwtio
    - cynnig dewis o gyfweliad wyneb yn wyneb neu rithiol.
- Rydyn ni'n adeiladu ar ein dulliau gweithio er mwyn cydweithio ymhellach â phartneriaid ar arddangosfeydd er enghraifft *Windrush Cymru*, a ddatblygwyd ar y cyd â Race Council Cymru a Hanes Pobl Dduon Cymru, sy'n teithio o amgylch amgueddfeydd Amgueddfa Cymru ar hyn o bryd; *Yfory trwy Lygaid Ddoe* sef arddangosfa a ddatblygwyd gan bobl ifanc o gefndiroedd amrywiol, a'n project gyda Phanel Cynghori Is-Sahara ac artistiaid o Drinidad neu o dreftadaeth Trinidadaidd ar ail-fframio'r portread o Thomas Picton yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.
- Rydym wedi datblygu siarter dad-drefedigaethu ar gyfer y casgliadau.
- Rydym yn cydnabod fod diffyg cyfleoedd i'r bobl ifanc sy'n wynebu'r anfantais fwyaf ac yn cydweithio gyda Barnardo's, Plant yng Nghymru, Jukebox Collective, Llamau, Promo Cymru a Phanel Cynghori Is-Sahara i ddatblygu cyfleoedd a rhaglenni ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys cyfleoedd â thâl i dros 80 o bobl ifanc annibynnol rhwng 18 a 25 oed o gefndiroedd amrywiol yn rhan o broject Dwylo ar Dreftadaeth a noddir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.
- Rydym wedi datblygu mentrau megis 'Cysur mewn Casglu' mewn partneriaeth â'r Comisiynydd Pobl Hŷn, Cymdeithas Alzheimer, Ymddiriedolaeth Innovate a darparwyr cartrefi gofal i helpu ansawdd bywyd pobl hŷn. Gellir lawrlwytho adnoddau sy'n gysylltiedig â chasgliadau'r Amgueddfa at ddefnydd lleoliadau gofal er mwyn sbarduno sgwrs neu ddwyn atgofion melys i gof ar gyfer y bobl hynny sydd mewn perygl o gael eu hynysu yn gymdeithasol.
- Rydym yn gwella'r mynediad corfforol i'n hamgueddfeydd ac yn y broses o osod ramp mynediad newydd o flaen Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

# 4. Cynllun Gweithredu

## Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

| Yn ymateb i | Amcanion | Camau Gweithredu Blwyddyn Ariannol 2022-23 | Camau Gweithredu Blynyddoedd Ariannol 2023-25 | Canlyniad | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| **WAARU** | Cynyddu'r gynrychiolaeth ar Fwrdd Amgueddfa Cymru a chynyddu llais yr ifanc ar y Bwrdd ac ymhlith aelodau Cyngor y Celfyddydau. | • Datblygu cynllun recriwtio tair blynedd gyda Llywodraeth Cymru ac adolygu'r broses a thaliadau cydnabyddiaeth. | • Rhoi'r cynllun recriwtio ar waith gyda Llywodraeth Cymru. | Mae'r arweinyddiaeth yn cynrychioli'r boblogaeth. | Amgueddfa Cymru<br><br>Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **Richie Turner Associates WAARU** | Mae aelodau'r Bwrdd, y Cyngor a Thimau Uwch yn wrth-hiliol, yn wrth-ablaidd ac yn arddel polisi dim goddefgarwch. | • Sefydlu a chynnal rhaglen hyfforddi orfodol ar gyfer aelodau'r Bwrdd, y Cyngor a Thimau Uwch.<br>• Sefydlu prosesau i ddwyn y sefydliadau a gefnogwn i gyfrif.<br>• Dysgu o waith Asiant er Newid Cyngor Celfyddydau Cymru. | • Adolygu a chynnal rhaglen hyfforddi orfodol i bob aelod newydd o'r Bwrdd, y Cyngor a Thimau Uwch.<br>• Cynnal sesiynau myfyrio gyda holl aelodau'r Bwrdd, aelodau'r Cyngor a Thimau Uwch. | Mae'r timau arweiniol yn wrth-hiliol, yn wrth-ablaidd ac nid ydynt yn goddef gwahaniaethu nac anghydraddoldeb o unrhyw fath. | Amgueddfa Cymru<br><br>Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **Re:cognition Richie Turner Associates WAARU** | Mae Amcanion Cydraddoldeb wrth wraidd Cynlluniau Strategol blynyddol a hirdymor y ddau sefydliad. | • Mae'r Bwrdd a'r Cyngor yn datblygu ac yn cyflawni Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb ill dau (wedi'u llywio gan yr argymhellion ac yn cynnwys Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a LHDTC+ y Llywodraeth) ac mae gan y ddau sefydliad Ddangosyddion Perfformiad yn eu cylch.<br>• Mae'r ddau gorff yn pennu ac yn cyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2022-24.<br>• Byddwn yn adeiladu camau i fynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir gan bobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol sylweddol i mewn i'n polisïau a'n gwasanaethau. | • Adroddir i'r Bwrdd a'r Cyngor am lwyddiant yr elfennau Cydraddoldeb yn y Cynlluniau Strategol yn unol â'r Dangosyddion Perfformiad.<br>• Caiff data (meintiol ac ansoddol) ei ddiffinio ble bynnag y bo modd, ei gasglu a'i ddefnyddio yn ddeallus.<br>• Mae'r ddau gorff yn pennu ac yn cyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2024-26. | Mae'r timau arweiniol yn wrth-hiliol ac nid ydynt yn goddef gwahaniaethu nac anghydraddoldeb o unrhyw fath.<br><br>Mae prosesau yn eu lle er mwyn i gymunedau a rhanddeiliaid ein dwyn i gyfri am roi'r camau gweithredu hyn ar waith ac er mwyn i ninnau ddwyn y sefydliadau hynny sy'n gweithio gyda ni ac a gefnogir gennym i gyfrif. | Amgueddfa Cymru<br><br>Cyngor Celfyddydau Cymru |

| Yn ymateb i | Amcanion | Camau Gweithredu Blwyddyn Ariannol 2022-23 | Camau Gweithredu Blynyddoedd Ariannol 2023-25 | Canlyniad | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Re:cognition Richie Turner Associates WAARU** | Mae'r Uwch Dimau yn cymryd cyfrifoldeb am roi'r Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad ar waith ac alinio â Chynlluniau Gweithredu Llywodraeth Cymru. | • Adolygu'r Cynllun Gweithredu Ehangu Mynediad ac adrodd i'r Bwrdd a'r Cyngor.<br>• Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd a'r Cyngor ar y cyd i adolygu cynnydd a phennu camau gweithredu'r dyfodol.<br>• Cyhoeddir fideos/cyfathrebu ar y cyd er mwyn rhannu'r cynnydd a chamau gweithredu i'w datblygu.<br>• Datblygir y cynlluniau ymhellach wrth ymateb i gyhoeddi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a Chynllun LHDTC+ Llywodraeth Cymru. | • Adolygu'r Cynlluniau Gweithredu ac adrodd i'r Bwrdd/Cyngor.<br>• Cyfarfodydd ar y cyd gan y Bwrdd a'r Cyngor i adolygu'r cynnydd.<br>• Cyhoeddi fideos/cyfathrebu ar y cyd i rannu'r cynnydd. | Mae'r timau arweiniol yn wrth-hiliol ac nid ydynt yn goddef gwahaniaethu nac anghydraddoldeb o unrhyw fath.<br><br>Mae prosesau yn eu lle er mwyn i gymunedau a rhanddeiliaid ein dwyn i gyfri am roi'r camau gweithredu hyn ar waith ac er mwyn i ninnau ddwyn y sefydliadau hynny sy'n gweithio gyda ni ac a gefnogir gennym i gyfrif. | Amgueddfa Cymru<br><br>Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **Re:cognition Richie Turner Associates WAARU** | Mae mesurau arloesol ac effeithiol yn eu lle. | • Datblygu teclyn a matrics gwerthuso i fesur llwyddiant y Cynllun Gweithredu.<br>• Cydweithio â chyrff eraill yng Nghymru i bennu gwerth ymgysylltu diwylliannol i Gymru a datblygu mesurau i adlewyrchu hyn. | • Defnyddir y teclyn a matrics gwerthuso i fesur cynnydd a llywio datblygiadau'r dyfodol. | Mae prosesau yn eu lle er mwyn i gymunedau a rhanddeiliaid ein dwyn i gyfri am roi'r camau gweithredu hyn ar waith ac er mwyn i ninnau ddwyn y sefydliadau hynny sy'n gweithio gyda ni ac a gefnogir gennym i gyfrif. | Amgueddfa Cymru<br><br>Cyngor Celfyddydau Cymru |

# Democratiaeth Ddiwylliannol

| Yn ymateb i | Amcanion | Camau Gweithredu Blwyddyn Ariannol 2022-23 | Camau Gweithredu Blynyddoedd Ariannol 2023-25 | Canlyniad | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Re:cognition Richie Turner Associates WAARU** | Mabwysiadu Democratiaeth Ddiwylliannol yn ymarferol ac yn ddeallusol gyda chymunedau yn arwain mentrau. | • Datblygu fframweithiau er mwyn sicrhau y bydd sefydliadau cymunedol yn cael eu contractio a'u hariannu i arwain a chyd-gynhyrchu rhaglenni a phrojectau a'u bod yn atebol i'r cymunedau hynny am eu penderfyniadau. | • Contractio a/neu ddarparu grantiau i sefydliadau cymunedol i arwain a chyd-gynhyrchu rhaglenni a phrojectau. | Caiff projectau diwylliannol eu harwain a'u cyd-gynhyrchu gan gymunedau. | Amgueddfa Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **Richie Turner Associates WAARU** | Caiff hanesion a chreadigrwydd cymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd, pobl F/fyddar a phobl anabl, a phobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol eu cynrychioli a'u dathlu yn yr amgueddfeydd cenedlaethol, mewn rhaglenni celfyddydol a chreadigol ac yn ddigidol. | • Caiff cymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd, pobl F/fyddar a phobl anabl, a phobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yr adnoddau i ddehongli, arddangos a dathlu eu creadigrwydd a'u hanesion mewn amgueddfeydd a lleoliadau ar draws Cymru.<br>• Bydd ymarferwyr creadigol gyda phrofiad bywyd a phartneriaid a gyflogir yn Asiantau er Newid yn gweithio gyda'r Amgueddfeydd cenedlaethol ac orielau i ddatblygu cynllun tair blynedd ar gyfer arddangosfeydd ac arddangosiadau newidiol.<br>• Mae dehongliadau o wrthrychau ar gael yn ddigidol ac yn hygyrch.<br>• Cyd-ddatblygu a chynnal digwyddiadau cymunedol sy'n ennyn brwdfrydedd.<br>• Caiff projectau a rhaglenni celfyddydol a noddir eu cyd-gynhyrchu ag artistiaid a chymunedau sydd â phrofiadau bywyd. | • Cefnogir cymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd i ddehongli, arddangos a dathlu eu creadigrwydd a'u hanesion mewn amgueddfeydd a lleoliadau ar draws Cymru.<br>• Comisiynir gwaith gan artistiaid sydd â phrofiad bywyd.<br>• Cyflwynir cynllun tair blynedd ar gyfer arddangosfeydd ar draws y saith amgueddfa genedlaethol ac mewn orielau ar draws Cymru.<br>• Caiff projectau a rhaglenni celfyddydol a noddir eu cynnal gydag artistiaid a chymunedau sydd â phrofiadau bywyd. | Mae'r celfyddydau a threftadaeth yn cynrychioli hanesion a chreadigrwydd cymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd a phobl F/fyddar ac anabl. | Amgueddfa Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru |

| Yn ymateb i | Amcanion | Camau Gweithredu Blwyddyn Ariannol 2022-23 | Camau Gweithredu Blynyddoedd Ariannol 2023-25 | Canlyniad | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| **WAARU** | Dad-drefedigaethu gwaith rhyngwladol a dad-drefedigaethu ac amrywio'r casgliadau cenedlaethol. | • Sefydlu'r meini prawf gyda phartneriaid cymunedol.<br>• Datblygu rhwydweithiau rhyngwladol i rannu'r gwaith hwn.<br>• Cefnogi'r celfyddydau yng Nghymru i ymgysylltu â rhwydweithiau, trafodaethau ac ymrwymiadau byd-eang ynghylch cyfiawnder hinsawdd, cyfrifoldeb byd-eang a dad-drefedigaethu ar lefel genedlaethol, ar draws y DU a rhyngwladol.<br>• Hanesion a guddiwyd yn cael eu dogfennu'n llawn a'u rhannu'n gyhoeddus.<br>• Dechrau'r broses o ddigideiddio casgliadau a sicrhau eu bod ar gael yn gyhoeddus wrth eu caffael.<br>• Datblygu strategaeth gasgliadau newydd gyda gwell amrywiaeth; ffocws newydd ar gaffael a chomisiynu, a chynrychiolaeth fwy amrywiol ar bwyllgorau cynghori sy'n berthnasol i gaffaeliadau. | • Caffael gwaith trwy gomisiynu gwaith gan artistiaid sydd â phrofiad bywyd.<br>• Sicrhau cynrychiolaeth fwy amrywiol ar bwyllgorau cynghori sy'n berthnasol i gaffaeliadau a gwaith rhyngwladol.<br>• Casglu sy'n fwy amrywiol.<br>• Cynnal rhaglen o ddigideiddio'r casgliadau a sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio dan bolisïau mynediad agored. | Mae'r celfyddydau a threftadaeth yn cynrychioli hanesion a chreadigrwydd cymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd a phobl F/fyddar ac anabl. | Amgueddfa Cymru<br><br>Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **WAARU** | Datblygu adnoddau a rhaglenni cynhwysol a gwrth-hiliol newydd ar gyfer ysgolion. | • Datblygu Cynefin, y rhaglen Dysgu Creadigol lwyddiannus, ymhellach er mwyn cefnogi gwell dealltwriaeth o dreftadaeth a thirwedd ddiwylliannol amrywiol Cymru. | • Parhau i ddatblygu a chynnal Cynefin gydag ysgolion ar draws Cymru. | Adnoddau a rhaglenni i ysgolion sy'n cefnogi cwricwlwm cynhwysol, gwrth-hiliol a gwrth-ablaidd. | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| | | • Datblygu gweithgareddau ac adnoddau i'w defnyddio mewn ysgolion i gefnogi gwell dealltwriaeth o dreftadaeth a thirwedd ddiwylliannol amrywiol Cymru. | • Gweithio gydag ymarferwyr â phrofiadau bywyd i gefnogi a chynnal Cynefin mewn lleoliadau amgueddfa. | | Amgueddfa Cymru<br><br>Cyngor Celfyddydau Cymru |

| Yn ymateb i | Amcanion | Camau Gweithredu Blwyddyn Ariannol 2022-23 | Camau Gweithredu Blynyddoedd Ariannol 2023-25 | Canlyniad | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Re:cognition<br>Richie Turner Associates<br>WAARU** | Creu strwythur er mwyn rhoi Democratiaeth Ddiwylliannol ar waith gyda sefydliadau cymunedol. | • Sefydlu Tasglu o fewn grŵp cynghori Mae Bywydau Du o Bwys yr Amgueddfa, gan ehangu'r cylch gorchwyl a'r aelodaeth i gynnwys artistiaid er mwyn monitro a goruchwylio gwireddu'r Cynllun Gweithredu ar y cyd.<br>• Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen dan arweiniad pobl F/fyddar ac Anabl i arwain y gwaith o osod safonau ar gyfer profiadau ymwelwyr mewn lleoliadau celfyddydol ac amgueddfeydd fel y nodir yn adroddiad Richie Turner Associates.<br>• Parhau i gefnogi rhwydwaith Cyfuno, a sefydlwyd trwy raglen Cyfuno Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar draws Cymru, a chreu cysylltiadau â'r argymhellion yn adroddiad Re:cognition.<br>• Sefydlu fframwaith taliadau cydnabyddiaeth ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n cyfrannu.<br>• Ail-lansio a datblygu Noson Allan, cynllun teithio cymunedol Cyngor Celfyddydau Cymru. | • Archwilio fframweithiau er mwyn datblygu byrddau cynghori dan arweiniad cymunedau neu fyrddau'r bobl, cydlynwyr diwylliannol a byrddau cynghori dan arweiniad cymunedau ar gyfer mentrau ar lefel leol. | Mae cymunedau wedi'u grymuso er mwyn siapio a llywio'u profiadau diwylliannol eu hunain. | Amgueddfa Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru |
| | Creu strwythur er mwyn rhoi Democratiaeth Ddiwylliannol ar waith gyda phobl ifanc. | • Gwreiddio Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru, sef cyfleoedd â thâl i gynyddu cynrychiolaeth pobl ifanc mewn prosesau datblygu polisi a phenderfyniadau. | • Datblygu camau gweithredu ar y cyd â Chynhyrchwyr Amgueddfa Cymru. | | Amgueddfa Cymru |
| | | • Ehangu Cynllun Cydweithwyr Celfyddydol Cyngor Celfyddydau Cymru i gynnwys pobl ifanc mewn prosesau penderfynu. | • Datblygu camau gweithredu gyda'r cydweithwyr ifanc i gefnogi pobl ifanc i fod yn benderfynwyr ac yn arweinwyr yn y celfyddydau. | | Cyngor Celfyddydau Cymru |

| Yn ymateb i | Amcanion | Camau Gweithredu Blwyddyn Ariannol 2022-23 | Camau Gweithredu Blynyddoedd Ariannol 2023-25 | Canlyniad | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| **WAARU Re:cognition Richie Turner Associates** | Adolygu Portffolio Celfyddydol Cymru gan gynnwys ailddiffinio cysyniad a rôl sefydliad sy'n rhan o'r Portffolio, y math o sefydliadau sy'n gymwys i ymuno a'u strwythur, a'r broses o ddod yn aelod o'r portffolio. | • Sicrhau y bydd proses Adolygu Buddsoddiad yn y dyfodol yn dryloyw ac wedi'i dylunio trwy gydweithio a chyd-gynhyrchu gyda'n holl randdeiliaid.<br>• Ystyried y materion a godwyd mewn perthynas â monitro ac adolygu gweithgarwch ac ymrwymiadau sefydliadau'r Portffolio, gan gynnwys y disgwyliadau o ran cynhwysiant, gwrth-hiliaeth a gwrth-ablaeth.<br>• Adolygu prosesau monitro a gwerthuso i sicrhau y bydd sefydliadau a noddir yn cynnal gweithgareddau arfaethedig ac a gynlluniwyd sy'n canolbwyntio ar weithio gyda chymunedau a/neu gynulleidfaoedd penodol.<br>• Ail-lansio ein rhaglen Camau Creadigol (gweler isod).<br>• Sicrhau y caiff llefydd eu pennu ar gyfer artistiaid amrywiol eu cefndiroedd a'u hethnigrwydd, byddar ac anabl, trans, cwiyr, ac artistiaid sydd ag incwm isel neu statws ffoadur / ceisiwr lloches yn rhan o ddisgwyliadau'r Contract Diwylliannol. | • Cwblhau'r adolygiad o Bortffolio Celfyddydol Cymru. | Mae Portffolio Celfyddydol Cymru yn fwy cynrychioladol o dirwedd gelfyddydol a diwylliannol Cymru. | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **Richie Turner Associates** | Adolygu proses ymgeisio am grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru er mwyn ei symleiddio a gwella mynediad i bobl F/fyddar ac anabl ac eraill. | • Parhau â'r adolygiad o broses a system ymgeisio am grantiau'r Cyngor gan gynnwys datblygu ystod o brosesau ymgeisio hygyrch.<br>• Parhau i ddatblygu prosesau penderfynu ynghylch grantiau'r Cyngor sy'n cynnwys pobl ifanc a phobl â phrofiad bywyd perthnasol. | • Monitro effaith dulliau newydd y prosesau ymgeisio am grant | Mae nawdd celfyddydol yn fwy hygyrch ac yn cyrraedd cymunedau ehangach. | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **WAARU** | Gorffen a chyhoeddi cynlluniau nawdd Camau Creadigol ar gyfer sefydliadau ac unigolion. | • Cynnwys camau gweithredu gan gynnwys cefnogi a mentora. Cynyddu'r buddsoddiad yn y cynllun.<br>• Bydd yr adolygiad yn cynnwys recriwtio a datblygu Cydweithwyr Creadigol i gefnogi artistiaid newydd ac addawol gyda'r broses ymgeisio a datblygu project.<br>• Pennu cyllid sbarduno ar gyfer gweithgarwch celfyddydol/ymgysylltu lleol.<br>• Lansio cynllun newydd. | • Parhau i adolygu a datblygu mynediad at nawdd i artistiaid a phobl greadigol amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd. | Mae nawdd celfyddydol yn fwy hygyrch ac yn cyrraedd cymunedau ehangach. | Cyngor Celfyddydau Cymru |

| Yn ymateb i | Amcanion | Camau Gweithredu Blwyddyn Ariannol 2022-23 | Camau Gweithredu Blynyddoedd Ariannol 2023-25 | Canlyniad | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| **WAARU** | Rhannu gwybodaeth am benderfyniadau nawdd cyfredol a'r gorffennol. | • Archwilio creu gofod digidol er mwyn i unigolion a sefydliadau allu canfod gwybodaeth am ddyraniad cyfredol nawdd celfyddydol. | • Adolygu effaith rhannu'r mynediad at wybodaeth am nawdd. | Mae gwybodaeth am effaith penderfyniadau nawdd celfyddydol yn fwy hygyrch. | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **WAARU** | Adnoddau nad ydynt mewn defnydd ar gael at ddefnydd partneriaid ac artistiaid cymunedol | • Peilota'r defnydd o ofodau nad ydynt mewn defnydd mewn amgueddfeydd a lleoliadau celfyddydol.<br>• Peilota ailgylchu deunyddiau a ddefnyddiwyd mewn arddangosfeydd. | • Peilota llogi offer nad yw mewn defnydd.<br>• Sefydlu'r system a'i ehangu. | Mae modd i ragor o artistiaid a phobl greadigol greu, cynhyrchu a rhannu gwaith trwy gael mynediad at adnoddau sy'n cael eu tanddefnyddio. | Amgueddfa Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **WAARU** | Mae gwrth-hiliaeth a gwrth-ablaeth yn cael eu sefydlu yn nulliau caffael gwasanaethau trydydd parti. | • Datblygu set o egwyddorion caffael i'r ddau sefydliad eu mabwysiadu sy'n gofyn am dystiolaeth o ddulliau gweithio gwrth-hiliol a gwrth-ablaid. | • Rhoi hyfforddiant a chefnogaeth i staff am y dull a rhannu'r egwyddorion â'r sector ehangach. | Mae cydraddoldeb wedi'i wreiddio yn yr egwyddorion caffael sy'n rhai gweithredol a chesglir tystiolaeth yn eu cylch. | Amgueddfa Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **WAARU** | Mae arferion ac ymchwil ymgysylltu wedi'u siapio gan arbenigedd a phrofiad bywyd pobl. | • Sefydlir modelau ymgynghori nad ydynt yn alldynnol. | • Cynhelir gwaith ymchwil ac ymgysylltu mewn meysydd nad oeddent yn rhan o'r cam hwn gan gynnwys ardaloedd daearyddol ac ardaloedd dan anfantais economaidd, a gaiff eu pennu trwy drafod a chymunedau.<br>• Cynhelir gwaith ymchwil pellach dan arweiniad pobl F/fyddar ac anabl ar weithgarwch creadigol/cyfranogol ar draws yr Amgueddfa (casglu/digwyddiadau/arddangosfeydd) a sefydliadau celfyddydol. | Caiff ymchwil ei siapio gan wybodaeth, arbenigedd a phrofiad bywyd pobl. | Amgueddfa Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru |

# Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

| Yn ymateb i | Amcanion | Camau Gweithredu Blwyddyn Ariannol 2022-23 | Camau Gweithredu Blynyddoedd Ariannol 2023-25 | Canlyniad | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| **WAARU** | Sicrhau y caiff gwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Gymraeg a Chydraddoldeb ei integreiddio'n effeithiol. | • Datblygu fframwaith ar gyfer amcanion Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br>• Pennu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg ar gyfer 2023-25. | • Pennu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg ar gyfer 2025-26. | Mae ein dulliau gwaith yn naturiol ddwyieithog, yn gynhwysol ac yn deg. | Amgueddfa Cymru |
| | | • Rhoi cynllun ar waith i gyfuno'r gwaith ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yr Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb. | • Pennu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg ar gyfer 2025-26. | | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **WAARU** | Cefnogi artistiaid a gweithwyr celf i ddefnyddio a dysgu Cymraeg. | • Adeiladu ar fentrau sydd eisoes ar y gweill i gefnogi defnydd o'r Gymraeg. | • Ehangu cynlluniau dysgu Cymraeg am ddim ymhellach i staff ac artistiaid, gan weithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn cefnogi pobl ifanc greadigol ac artistiaid.<br>• Datblygu dulliau o gefnogi artistiaid byddar ac ymarferwyr creadigol i ddysgu Cymraeg. | Caiff defnyddio'r Gymraeg a chyfleoedd i ddysgu Cymraeg eu cefnogi a'u hwyluso. | Amgueddfa Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru |

| Yn ymateb i | Amcanion | Camau Gweithredu Blwyddyn Ariannol 2022-23 | Camau Gweithredu Blynyddoedd Ariannol 2023-25 | Canlyniad | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| **WAARU** | Mae cymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd yn creu ac yn dathlu'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn eu hieithoedd eu hunain a thrwy eu ieithoedd eu hunain. | • Mae'r mentrau a ddatblygir gyda chymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd yn cynnwys cyfleoedd i greu a dehongli mewn amryw ieithoedd cymunedol. | • Mewn ymgynghoriad â chymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd, llunio cynllun i gynnwys ieithoedd cymunedol mewn gwaith dehongli ehangach mewn amgueddfeydd a lleoliadau. | Dethlir amlieithrwydd Cymru. | Amgueddfa Cymru<br><br>Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **WAARU** | Datblygir gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol Cymraeg drwy'r sector yng Nghymru. | • Pennu Ysgogwr y Gymraeg yng Nghyngor y Celfyddydau i ddatblygu cynllun gweithredu strategol ar gyfer y Gymraeg yn y celfyddydau.<br>• Rhoi'r cynllun ar waith yn unol ag Adroddiad Mapio'r Gymraeg a thrwy waith ein Hysgogwr. | • Rhoi Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg yn y celfyddydau ar waith. | Mae gwasanaethau cyhoeddus yn naturiol ddwyieithog, yn gynhwysol ac yn deg.<br><br>Caiff defnyddio'r Gymraeg a chyfleoedd i ddysgu Cymraeg eu cefnogi a'u hwyluso. | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| | | • Parhau i ddatblygu a chynnal rhaglenni, gwaith dehongli a gwasanaethau Cymraeg. | • Annog y defnydd o eiriau a dywediadau Cymraeg mewn testun Saesneg ac wrth gyfarch, er enghraifft wrth ddehongli arddangosfeydd ac yn ein rhaglenni addysg, er mwyn cefnogi dysgu a defnyddio'r Gymraeg. | | Amgueddfa Cymru |

# Gwasanaethau Hygyrch

| Yn ymateb i | Amcanion | Camau Gweithredu Blwyddyn Ariannol 2022-23 | Camau Gweithredu Blynyddoedd Ariannol 2023-25 | Canlyniad | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Richie Turner Associates** | Sefydlu a gwreiddio safonau arfer gorau ar gyfer profiad defnyddwyr, cynulleidfaoedd ac ymwelwyr mewn lleoliadau diwylliannol/ celfyddydol ac amgueddfeydd cenedlaethol. | • Comisiynu gwaith pellach ar greu safonau arfer gorau yn canolbwyntio ar lefelau mynediad lleoliadau a safonau i staff er mwyn gwella profiad ymwelwyr/cynulleidfaoedd.<br>• Datblygu safonau ar y cyd â phobl F/fyddar ac anabl. | • Rhoi'r argymhellion a wneir yn rhan o'r safonau arfer gorau ar waith. | Mae profiadau defnyddwyr, cynulleidfaoedd ac ymwelwyr yn gynhwysol ac yn diwallu anghenion pobl F/fyddar ac anabl. | Amgueddfa Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **Richie Turner Associates** | | • Mae canolbwyntio ar wella mynediad i'r amgueddfeydd cenedlaethol yn faes allweddol yn y Cynllun Ystadau. | • Cynnal y rhaglen waith fel y nodir yn y Cynllun Ystadau. | | Amgueddfa Cymru |
| **Richie Turner Associates** | Mae adnoddau a rhaglenni diwylliannol ar gael mewn BSL. | • BSL yn parhau i gael ei chynnwys mewn rhaglenni newydd. | • Mae rhaglenni ar gael trwy BSL. | Mabwysiadir BSL yn drydedd iaith. | Amgueddfa Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **Richie Turner Associates WAARU** | Mae adnoddau diwylliannol yn hygyrch. | • Parhau i ddarparu mynediad corfforol a digidol i adnoddau diwylliannol hygyrch gan gynnwys fersiynau hawdd eu darllen a phrint bras. | • Gweithio gyda chymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd i gynllunio'r defnydd o ieithoedd cymunedol, ochr yn ochr â'r Gymraeg, BSL a Saesneg, gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio technoleg. | Mae lleoliadau, amgueddfeydd ac adnoddau diwylliannol yn hygyrch. | Amgueddfa Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **Richie Turner Associates** | Datblygu cynllun Hynt Cyngor y Celfyddydau (cynllun cerdyn mynediad) ymhellach. | • Datblygu cynllun Hynt trwy weithio gyda Chyngor Celfyddydau'r DU, Celfyddydau Anabledd Cymru a Chreu Cymru. | • Sefydlu cynllun mynediad DU gyfan, gan adeiladu ar lwyddiant cynllun Hynt Cymru. | Mae profiadau defnyddwyr, cynulleidfaoedd ac ymwelwyr yn gynhwysol ac yn diwallu anghenion pobl F/fyddar ac anabl. | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| | | | • Amgueddfa Cymru i ymuno â chynllun Hynt. | | Amgueddfa Cymru |

| Yn ymateb i | Amcanion | Camau Gweithredu Blwyddyn Ariannol 2022-23 | Camau Gweithredu Blynyddoedd Ariannol 2023-25 | Canlyniad | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Richie Turner Associates** | Gyda Chelfyddydau Anabledd Cymru, tynnu sylw at erthygl 30 Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl: 'Dewch â'n Hawliau Creadigol: Maniffesto Diwylliannol a Rhyngwladol Pobl Anabl.' | • Cynnal digwyddiad i dynnu sylw at yr erthygl a’r galw i weithredu.<br>• Camau gweithredu yn cael eu cynnwys yn fersiwn nesaf y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.<br>• Cefnogi datblygiad Mis Hanes Pobl Anabl. | • Adrodd ar effaith y camau gweithredu.<br>• Lansio Mis Hanes Pobl Anabl. | Mae profiadau defnyddwyr, cynulleidfaoedd ac ymwelwyr yn gynhwysol ac yn diwallu anghenion pobl F/fyddar ac anabl. | Amgueddfa Cymru<br><br>Cyngor Celfyddydau Cymru |

# Datblygu’r Gweithlu, Hyfforddiant Staff a Sgiliau

| Yn ymateb i | Amcanion | Camau Gweithredu Blwyddyn Ariannol 2022-23 | Camau Gweithredu Blynyddoedd Ariannol 2023-25 | Canlyniad | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Richie Turner Associates WAARU** | Recriwtio staff ar bob lefel er mwyn cynrychioli’r boblogaeth. | • Parhau i gefnogi rôl Asiant er Newid a chyhoeddi adroddiad ar y rhaglen waith. | • Adolygu effaith y rôl a chytuno ar gynllun ar gyfer y dyfodol. | Mae’r gweithlu yn cynrychioli’r boblogaeth. | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| | | • Parhau i gefnogi rôl Asiant er Newid a chyhoeddi adroddiad ar y rhaglen waith.<br>• Sefydlu rolau arbenigol i arwain mentrau ymgysylltu mewnol ac allanol gyda Rhaglenni Cyhoeddus a Chasgliadau | • Sefydlu swyddi arbenigol i arwain newid yn Adnoddau Dynol (AD) ac ar lefel uwch. | | Amgueddfa Cymru |

| Yn ymateb i | Amcanion | Camau Gweithredu Blwyddyn Ariannol 2022-23 | Camau Gweithredu Blynyddoedd Ariannol 2023-25 | Canlyniad | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Richie Turner Associates WAARU** | Adolygu polisïau a phrosesau recriwtio AD. | Peilota polisïau recriwtio newydd sy'n cefnogi ymgeiswyr o gymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd a phobl anabl gan gynnwys:<br>• cefnogaeth gyda phrosesau ymgeisio gan gynnwys sesiynau 1-1<br>• gwarantu cyfweliad i'r rheini sy'n bodloni meini prawf asesu'r swydd<br>• cefnogaeth i Benaethiaid Adran i weithredu fel rheolwyr perthynas<br>• cymorth â chostau teithio.<br>Cyhoeddi strwythur staffio gan gynnwys gradd y rôl, ystod reoli ac ystod weithredol a sicrhau ei fod ar gael yn rhwydd. | • Ymsefydlu'r hyn a ddysgwyd trwy beilota a rhoi'r polisi newydd ar waith.<br>• Amrywio'r broses ymgeisio er mwyn cynnwys fideo a chynrychiolaeth weledol.<br>• Cydweithio gyda Phartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru er mwyn canolbwyntio ar amrywiaeth y gweithlu ar draws sectorau. | Mae'r gweithlu yn cynrychioli'r boblogaeth. | Amgueddfa Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **Richie Turner Associates WAARU** | Adolygu polisïau a phrosesau staff AD. | • Datblygu system gymorth i weithwyr i gefnogi staff o gymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd a phobl F/fyddar ac anabl. | • Ehangu'r system cymorth i weithwyr i gynnwys datblygu a chynnydd gyrfa. | Mae gweithleoedd, mannau cyhoeddus a gwasanaethau yn llefydd diogel a chynhwysol. | Amgueddfa Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **WAARU** | | • Cynnwys adran ar ficroymosodiadau yn llawlyfrau urddas yn y gwaith y staff a'u cynnwys mewn polisïau perfformiad a disgyblu. | • Adolygu polisïau ymhellach yn seiliedig ar ba mor aml y bydd polisïau penodol yn cael eu defnyddio. | | Amgueddfa Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **Richie Turner Associates WAARU** | Darparu hyfforddiant gorfodol i bob aelod o staff er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r ddealltwriaeth gywir. | • Comisiynu, datblygu a pheilota rhaglen hyfforddi i staff am ragfarn ddiymwybod, gwrth-hiliaeth, gwrth-ablaeth, arwain mewn gwlad ddwyieithog a Cymraeg 2050.<br>• Rhoi hyfforddiant arbenigol i staff sy'n gweithio ym maes ymgysylltu cymunedol, gan gynnwys y tîm ymgysylltu a staff marchnata a chyfathrebu. | • Cynnal rhaglen hyfforddi gyda phob aelod o staff ac aelodau'r Bwrdd a'r Cyngor.<br>• Datblygu a chynnal hyfforddiant ymgysylltu cymunedol. | Mae'r gweithlu yn wrth-hiliol, yn wrth-ablaidd ac nid ydynt yn goddef gwahaniaethu nac anghydraddoldeb o unrhyw fath. | Amgueddfa Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **Re:cognition WAARU** | Darparu llwybrau i gyflogaeth i bobl ifanc, pobl hŷn ac artistiaid amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd. | • Datblygu a lansio cynlluniau Mentora.<br>• Cefnogi a thalu pobl ar leoliadau e.e. Kickstart.<br>• Adolygu cynlluniau prentisiaeth ar gyfer pob oedran. | • Parhau â'r Cynllun Mentora.<br>• Ehangu lleoliadau â thâl a sefydlu hyfforddiant dechrau gyrfa ac interniaethau.<br>• Datblygu cynlluniau prentisiaethau ar gyfer pob oedran ymhellach. | Cefnogir pobl ifanc ac artistiaid i ddatblygu eu doniau trwy gyfleoedd â thal. | Amgueddfa Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru |

# Cyfathrebu a Brandio

| Yn ymateb i | Amcanion | Camau Gweithredu Blwyddyn Ariannol 2022-23 | Camau Gweithredu Blynyddoedd Ariannol 2023-25 | Canlyniad | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Re:cognition** | Gwella adnabyddiaeth o’r enw. | • Lansio brand newydd Amgueddfa Cymru<br>• Cydweithio a sefydliadau cymunedol i ddatblygu a gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o wasanaethau Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. | • Cynyddu adnabyddiaeth a hyrwyddo gwaith a mentrau ymgysylltu trwy amryw blatfformau a chyda phartneriaid e.e. mewn ffeiriau cymunedol. | Mae'n hawdd adnabod Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. | Amgueddfa Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **WAARU**<br>**Richie Turner Associates**<br>**Re:cognition** | Cynyddu ymroddiad ac ymddiriedaeth. | • Amlygu’r cyfleoedd i staff fynychu cyfarfodydd Bwrdd / Cyngor.<br>• Datblygu gwell rhwydweithiau o fewn cymunedau amrywiol eu diwylliant a’u hethnigrwydd a chyda phobl F/fyddar ac anabl.<br>• Parhau i ddefnyddio rhwydwaith partneriaid Cyfuno, a sefydlwyd trwy raglen Cyfuno, i ymgysylltu â phobl sy’n wynebu anfanteision economaidd yng Nghymru. | • Datblygu dulliau cyfathrebu â sefydliadau cymunedol a rhwydweithiau lleol. | Cyfathrebu mwy effeithiol. | Amgueddfa Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **WAARU**<br>**Richie Turner Associates**<br>**Re:cognition** | Hyrwyddo cynwysoldeb wrth ddatblygu deunyddiau marchnata sy’n cydnabod ac yn dathlu profiadau diwylliannol yng Nghymru. | • Deunyddiau marchnata sy’n cydnabod ac yn dathlu arferion gwrth-hiliol a chynwysoldeb. | • Deunyddiau marchnata sy’n cydnabod ac yn dathlu arferion gwrth-hiliol a chynwysoldeb. | Mae deunyddiau marchnata a brandio yn wrth-hiliol, yn wrth-ablaidd ac yn gynhwysol. | Amgueddfa Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru |

# Atodiad 1
# Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Mae ein cynllun yn bodoli o fewn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Ein nod wrth ymateb i’r adroddiadau yw rhoi camau gweithredu ar waith fydd yn sicrhau newid cynaliadwy, hirdymor, nid yn unig ar gyfer pobl heddiw ond hefyd ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Wrth gytuno ar y camau gweithredu yn y cynllun hwn, rydym wedi ystyried saith nod llesiant y ddeddf a’r pum dull gweithio. Wrth adolygu’r cynllun a monitro’n cynnydd, byddwn yn mesur y camau gweithredu yn erbyn y saith nod.

| 7 Nod Llesiant | Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Mae'r Cynllun gweithredu hwn yn ceisio cyfrannu'n gyffredinol at boblogaeth addysgedig trwy ehangu'r mynediad at gelf, diwylliant a threftadaeth. Mae hefyd yn benodol yn creu llwybrau i gyflogaeth trwy greu prentisiaethau, interniaethau a lleoliadau gwaith ar gyfer pobl ifanc a phobl sydd wedi wynebu rhwystrau fel artistiaid creadigol sy'n datblygu. Bydd ystyriaeth i gynlluniau sero carbon ac effeithiau amgylcheddol ehangach yn cael eu cynnwys wrth ddylunio a gweithredu projectau a rhaglenni. |
| **Cymru gydnerth** | Bydd gweithio gyda chymunedau i ddatblygu dealltwriaeth a chapasiti er mwyn ystyried yr amgylchedd naturiol yn rhan o’r gwaith hwn. Nod ein dull gweithio yw adeiladu cymunedau cydnerth. |
| **Cymru sy’n fwy cyfartal** | Dyluniwyd y Cynllun Gweithredu hwn i fynd i’r afael ag anghydraddoldeb wrth i bobl geisio cael at brofiadau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth ym mhob rhan o Gymru. Y nod yw ehangu ymgysylltiad â phobl ac adlewyrchu profiadau a hunaniaethau pobl yn well drwy’r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth. Mae’n ceisio grymuso cymunedau amrywiol eu diwylliant a’u hethnigrwydd, pobl F/fyddar ac anabl a phobl sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol trwy eu cynnwys yn ddiffuant wrth ddatblygu gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru. Bydd yn creu’r strwythurau angenrheidiol a dulliau cefnogaeth fydd yn galluogi i hyn ddigwydd, yn fewnol ac yn allanol. |
| **Cymru iachach** | Mae’r Cynllun Gweithredu hwn yn ceisio sicrhau fod buddion llesiant ymgysylltu â’r celfyddydau, treftadaeth a diwylliant yn cael eu hymestyn i bob cymuned a grŵp cymdeithasol. Bydd rhaglen y Celfyddydau ac Iechyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a mentrau Celf mewn Ysbytai a Chysur mewn Casglu gan Amgueddfa Cymru yn chwarae rhan bwysig wrth roi’r newid hwn ar waith.<br><br>Bydd cynnwys cymunedau yn uniongyrchol yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu’r arlwy, boed hwnnw’n wirfoddol neu trwy dâl, yn cynyddu’r teimlad o berchnogaeth gyhoeddus. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Mae Democratiaeth Ddiwylliannol yn rhan ganolog o roi’r Cynllun Gweithredu hwn ar waith, gyda chymunedau yn cydweithio â ni i greu, penderfynu, galluogi ac ymgysylltu. |

| 7 Nod Llesiant | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
|---|---|
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Mae'r Cynllun Gweithredu yn ymateb i'r angen i wella a chynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ymgysylltu â'r celfyddydau, treftadaeth a diwylliant. Mae'n canolbwyntio ar yr unigolion a'r cymunedau hynny sydd wedi wynebu rhwystrau sydd wedi eu hatal rhag ymgysylltu â'n bywyd diwylliannol llewyrchus a chyfrannu ato.<br><br>Mae sicrhau fod cyfleoedd ar gael i ymgysylltu â diwylliant a chreu diwylliant trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan ganolog o'n cynllun, ynghyd â datblygu cyfleoedd cynyddol i ymgysylltu trwy ystod o wahanol ieithoedd cymunedol. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Bydd y gwaith yn cael ei rannu'n rhyngwladol er mwyn dathlu fod Cymru yn wlad wrth-hiliol, gwrth-ablaidd a chynhwysol. |

| Dulliau gweithio | Sut y cafodd ei weithredu |
|---|---|
| **Atal** | Mae tair astudiaeth ymgysylltu ddwys ar y cyd â chymunedau o ddiddordeb yn sail i'r amcanion. Y nod yw mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mynediad a chael gwared ar rwystrau sy'n atal ymgysylltiad ymhlith cymunedau penodol. |
| **Hirdymor** | Mae'r cynllun yn cydnabod fod ymrwymiad hirdymor i gyflawni'r cynllun a darparu adnoddau yn hanfodol er mwyn sicrhau'r newid sylweddol angenrheidiol. Mae'r cynllun yn rhan o Gynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb Strategol a strategaethau hirdymor y ddau sefydliad. |
| **Cydweithio** | Partneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru sydd wrth wraidd y cynllun hwn. Calon y cynllun yw'r cymunedau rydym ni'n anelu at eu cyrraedd a'r cymunedau hynny fydd yn llywio ac yn datblygu unrhyw gamau pellach.<br><br>Mae partneriaethau cryf ag ystod o sefydliadau gwahanol eisoes yn bodoli a byddwn yn eu datblygu ymhellach wrth roi'r cynllun ar waith. Rydym yn rhagweld y caiff partneriaethau a chyweithiau newydd eu ffurfio wrth i'r gwaith fynd rhagddo. |
| **Integreiddio** | Mae cydweithio yn sail i'r amcanion a byddant yn alinio ag amcanion cydraddoldeb hirdymor Llywodraeth Cymru gan gyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) a chymdeithas decach (Deddf Cydraddoldeb, 2010). Mae'r defnydd o'r pum dull gweithio wedi cefnogi integreiddio ar draws dyletswyddau. |
| **Cynnwys** | Rydym yn ymroi i ymgysylltu â phobl a chymunedau wrth ddatblygu'r cynllun hwn ymhellach ac wrth ddylunio projectau, rhaglenni a gwasanaethau sy'n sbarduno cyflawni ein hamcanion. |

# Atodiad 2
Geirfa

### Camau Creadigol
- Cynllun Cyngor Celfyddydau Cymru a noddir gan y Loteri, yn canolbwyntio ar gefnogi artistiaid unigol a sefydliadau sydd dan arweiniad pobl amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd, pobl fyddar, pobl anabl neu bobl niwroamrywiol.

### Croestoriadedd
- Dyma derm a fathwyd ym 1989 gan Kimberle Williams Crenshaw, ysgolhaig Affricanaidd-Americanaidd ym maes damcaniaeth feirniadol hil. Fframwaith yw croestoriadedd er mwyn dadansoddi sut y gall profiadau pobl o wahanol gategorïau hunaniaeth ddigwydd ar yr un pryd neu orgyffwrdd. Gall y categorïau hyn gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, hil, dosbarth cymdeithasol, rhyw, rhywedd ac ethnigrwydd.
- Yn hanfodol, mae croestoriadedd yn ein galluogi i ddeall mathau o ormes e.e. hiliaeth, gwahaniaethu ar sail dosbarth cymdeithasol, rhywiaeth, homoffobia a senoffobia nid fel materion unigol ar wahân, ond fel materion sy'n dibynnu ar ei gilydd ac sy'n creu system gydgysylltiedig o ormes.
- Mae croestoriadedd wedi bod yn fframwaith amlwg dros y blynyddoedd diwethaf am ei fod yn ein helpu i ddeall yr ystod o wahanol fathau o ormes y gallwn eu profi ar yr un pryd.
- Mae croestoriadedd yn fater cymhleth ac amrywiol. Gall fod yn berthnasol i gyd-destun penodol neu yn ehangach ac yn gymdeithasol ei natur. Yma yng Nghymru, dylem hefyd fod yn ymwybodol o groestoriadedd o safbwynt daearyddol yn ogystal â'r categorïau eraill a nodir uchod.

### Cymunedau Amrywiol eu Diwylliant a'u Hethnigrwydd
- Mae'n anodd canfod term sy'n cyfleu ehangder ac amrywiaeth y cymunedau a wasanaethir gennym ac yr ydym yn rhan ohonynt, ond penderfynwyd defnyddio 'cymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd' am y credwn fod y term hwn yn cyfleu'r ehangder yn well nag unrhyw derm arall.
- Trwy roi diwylliant ac ethnigrwydd ar bwys ei gilydd, rydym yn cydnabod y ffyrdd y gall sawl agwedd ar ein hunaniaeth groestorri a llywio'i gilydd, a dyma ein hanfod ni fel pobl.

### Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru
- Pobl ifanc annibynnol rhwng 18 a 25 oed o gefndiroedd amrywiol yw Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru. Maen nhw'n cael eu talu i weithredu fel asiantau er newid yn yr Amgueddfa. Mae'r fenter yn rhan o gynllun peilot Tynnu'r Llwch, a noddir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, er mwyn dangos fod treftadaeth yn berthnasol i fywydau pobl ifanc 11-25 oed.

### Dad-drefedigaethu'r Casgliadau
- Un o ôl-effeithiau sylweddol trefedigaethedd yw'r hyn a elwir yn Saesneg yn 'colonial hangover', sef gwaddol, ideoleg a safonau sydd dal yn weddill o'r ymerodraeth drefedigaethol ac sy'n treiddio trwy gymdeithas hyd heddiw.
- Mae'r gwaith o ddad-drefedigaethu yn canolbwyntio ar wella'r niwed a wnaed gan drefedigaethedd, gan ffocysu'n bennaf ar darfu ar ffyrdd 'traddodiadol', Ewroganolog a heteronormadol o weithredu.
- Mae dad-drefedigaethu yn ein galluogi i feddwl mewn ffyrdd amgen am sut i waredu hierarchaeth a hegemoni (pan fydd un grŵp yn tra-arglwyddiaethu dros grŵp arall).
- Ni ddylid drysu rhwng dad-drefedigaethu â gwaith sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb, amrywiaeth na chynwysoldeb. Mae'r gwaith hwnnw'n bwysig wrth gwrs, ond nid yw'n ddad-drefedigaethu. Cysyniad penodol yw dad-drefedigaethu sy'n canolbwyntio ar ddadwneud y niwed a achoswyd gan wladychiaeth ar lefel strwythurol, systemig ac epistemolegol.
- Mae'r pwyslais ar ddad-drefedigaethu casgliadau yn hanfodol am fod casgliadau, a phethau eraill sy'n gysylltiedig â diwylliant a threftadaeth, yn agweddau sylweddol o'r ffordd y caiff ein hunaniaeth, straeon a hanesion eu dehongli, eu hail-ddehongli, eu cyflwyno a'u cynrychioli.

### Democratiaeth Ddiwylliannol
- Daw'r term 'democratiaeth ddiwylliannol' o'r 'dull galluogrwydd' a ddatblygwyd gan yr economegydd-athronydd Amartya Sen a'r athronydd Martha Nussbaum. Maent yn diffinio galluogrwydd fel "real freedoms that people have to achieve their potential doings (activities we are able to undertake) and beings (the kind of people we are able to be). Real freedom in this sense means that one has all the required means necessary to achieve that doing or being if one wishes to. That is, it is not merely the formal freedom to do or be something, but the substantial opportunity to achieve it." Datblygodd y damcaniaethwr diwylliannol a nofelydd o Gymro, Raymond Williams, gorff sylweddol o waith ynghylch cysyniad democratiaeth ddiwylliannol hefyd.
- Yr hyn sydd wrth wraidd Democratiaeth Ddiwylliannol yw rhyddid a galluogrwydd pobl i greu fersiynau o ddiwylliant sy'n cael eu mynegi a'u dathlu mewn dull llorweddol, teg a democrataidd. Mae'r fframwaith hwn yn ein gosod bob un yn rhanddeiliaid cyfartal wrth benderfynu beth yw diwylliant, pwy sy'n ei brofi, pwy sy'n ei greu a ble mae hynny'n digwydd.

### Dulliau Gweithio nad ydynt yn Alldynnol

- Mae dulliau ymchwil traddodiadol, alldynnol yn cynnwys cymryd gwybodaeth gan gymunedau yna thorri cysylltiad â'r gymuned neu ei niweidio yn y broses, o ganlyniad i ddulliau, modelau neu arferion gweithio niweidiol.
- Nod dulliau gweithio nad ydynt yn alldynnol yw lliniaru'r dulliau gweithio traddodiadol all fod yn niweidiol trwy sicrhau y caiff cymunedau a chyfranwyr eu grymuso, yn hytrach nag alldynnu ganddynt.
- Rhaid creu 'economi foesol' o gynhyrchu gwybodaeth ar y cyd gan flaenoriaethu'r broses yn hytrach na'r canlyniad. Dylai fod yn seiliedig ar ddulliau empathetig o weithio ar y cyd a chyd-gyfnewid gwybodaeth. Byddai hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth, offer, technegau a llafur rhwng cymunedau a sefydliadau fel ein rhai ni.
- Mae cymryd rhan heb gydnabod gwahanol safbwyntiau, dysgu ar y cyd ac empathi yn creu dulliau gweithio alldynnol ac yn parhau i ymylu cymunedau.

### Microymosodiadau

- Bathwyd y term hwn yn y 1960au gan yr Athro Chester M. Pierce, i ddisgrifio profiadau Americanwyr Affricanaidd gan nodi "almost all black/white racial interactions are characterised by white put-downs, done in automatic, preconscious or unconscious fashion. These mini disasters accumulate".
- Gellir diffinio microymosodiad fel cysylltiadau ac ymddygiadau cynnil, yn aml yn anfwriadol (nid bob amser) sy'n cyfleu rhyw fath o ragfarn neu wahaniaethu yn erbyn rhywun; fel arfer rhywun sydd o gefndir diwylliannol neu ethnig amrywiol neu rywun o gymuned a ymylwyd.
- Y prif wahaniaeth rhwng microymosodiad a gwahaniaethu, rhagfarn neu hiliaeth agored, yw'r posibilrwydd nad yw'r person sy'n gweithredu o reidrwydd yn ymwybodol ohono.
- Mae sawl math o ficroymosod:
  - Microymosodiad – defnyddio term i ddisgrifio person neu grŵp a ymylwyd sy'n hysbys fel term niweidiol ond heb o reidrwydd fwriadu i dramgwyddo. Er enghraifft, adrodd jôc hiliol.
  - Microsarhad – fel arfer, sylwadau anuniongyrchol neu sydd â naws neu ystyr ymosodol cudd.
  - Microannilysu – annilysu profiadau pobl o gymuned a ymylwyd trwy wneud iddynt ymddangos yn or-sensitif neu eu bod yn gorymateb i rywbeth.
  - Microymosodiadau amgylcheddol – pan fydd gwahaniaethu cynnil yn digwydd o fewn cymdeithas. Mae'n gysylltiedig â chyd-destun amgylchedd unigolyn ac yn cwmpasu microymosodiadau negyddol all ddigwydd o ganlyniad i amgylchedd allanol yr unigolyn. Er enghraifft, rhywun yn gwylio rhaglen deledu sydd ddim yn gynrychioladol ac sydd felly'n teimlo wedi'i allgau neu heb ei gynrychioli o'r herwydd, neu astudio mewn sefydliad addysg uwch sydd ag adeiladau wedi'u henwi ar ôl pobl wyn yn unig.

### Model Cymdeithasol Anabledd

- Yn y 1960au a'r 1970au, dechreuodd pobl anabl herio'r ffordd y mae cymdeithas yn eu trin a'r ffyrdd yr oeddent yn cael eu hallgau. Dyma ddechreuad mudiad hawliau anabledd.
- Fframwaith yw model cymdeithasol anabledd a ddatblygwyd gan bobl anabl er mwyn pennu'r gwahanol ddulliau sy'n eu gormesu a gweithredu yn eu herbyn. Mae'r fframwaith yn nodi mai rhwystrau cymdeithasol sy'n effeithio ar abledd pobl, nid y nam. Gall y rhwystrau hyn gynnwys elfennau ffisegol e.e. diffyg tai bach anabl neu elfennau agweddol e.e cymryd yn ganiataol nad yw pobl anabl yn gallu gwneud pethau penodol.
- Datblygwyd model cymdeithasol anabledd yn wrthbwynt uniongyrchol i'r model traddodiadol, meddygol o anabledd oedd yn gweld anableddau a namau fel problem feddygol i'w hatal, gwella neu reoli, gan wneud i'r person anabl deimlo fel problem, yn hytrach na gweld mai'r gymdeithas yw'r broblem.
- Rydyn ni'n defnyddio'r term anabledd mewn dull mor holistaidd a chynhwysol â phosibl yn y Cynllun Gweithredu hwn, gan olygu fod ein defnydd o'r term yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, pobl fyddar, pobl sy'n ddall/sydd â nam ar eu golwg, pobl sydd ag anawsterau dysgu, pobl sydd â nam corfforol neu bobl niwrowahanol.

### Niwroamrywiaeth

- Dyma derm a ddefnyddiwyd yn wreiddiol gan y cymdeithasegydd o Awstralia, Judy Singer, yn y 1990au er mwyn annog pobl i weld gwahaniaethau niwroddatblygol yn amrywiad naturiol ac arferol o'r genom dynol. Mae'n annog cymdeithas i wrthod unrhyw negatifedd hirsefydlog sy'n gysylltiedig â phobl sy'n dysgu mewn modd penodol neu sy'n profi bywyd mewn ffordd wahanol o safbwynt niwrolegol.
- Mae niwroamrywiaeth hefyd yn cyfeirio at yr amrywioldeb niwrowybyddol di-rif o fewn y boblogaeth ddynol. Mae ein systemau nerfol ni oll yn unigryw ac mae gennym gyfuniad unigryw o alluoedd ac anghenion, felly mae'r gymdeithas gyfan yn niwroamrywiol.
- Cyflwr naturiol i'w barchu yw niwroamrywiaeth. Mae'n declyn dadansoddol er mwyn archwilio materion cymdeithasol ac yn agwedd bwysig wrth drafod a hwyluso amrywiaeth ddynol. Dylid cydnabod niwroamrywiaeth a'i barchu fel categori cymdeithasol yn yr un modd â rhywedd, ethnigrwydd, dosbarth economaidd-gymdeithasol ac ati.
- Rydyn ni'n cydnabod nad oes un ffordd 'gywir' o feddwl, dysgu nac ymddwyn ac y dylid dathlu'r gwahaniaethau hyn yn hytrach na'u gweld fel diffygion.

### Profiad Bywyd

- Mae 'profiad bywyd' wedi dod yn derm cynyddol boblogaidd i ddisgrifio profiadau, dewisiadau ac opsiynau unigolyn a sut mae pobl yn byw drwy'r profiadau hynny ac yn ymateb iddynt.
- Mae'r term 'profiad bywyd' yn ceisio deall y gwahaniaethau rhwng bywyd a phrofiadau ac archwilio sut a pham mae rhai profiadau yn fwy breintiedig nag eraill.
- Bydd unigolyn yn magu profiad bywyd trwy fod yn rhan uniongyrchol o ddigwyddiadau, sefyllfaoedd neu brofiadau penodol yn hytrach na thrwy gael gwybod amdanynt gan bobl eraill.
- Mae profiad bywyd yn arbennig o arwyddocaol wrth archwilio'r ffyrdd y mae polisi, cymdeithas a'r byd o'n cwmpas yn siapio'r profiadau hyn ac yn dylanwadu arnynt.
- Mae gan unigolion â phrofiad bywyd wybodaeth, dealltwriaeth a safbwyntiau unigryw sy'n werthfawr i'n twf ni ac sy'n ein gwthio tuag at degwch a chyfiawnder cymdeithasol.

## Rhaglen Cyfuno

- Rhaglen Llywodraeth Cymru yw Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant a ddatblygwyd fel ymateb i adroddiad *Diwylliant a Thlodi* y Farwnes Kay Andrews a gyhoeddwyd yn 2014. Fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru "Mae'n annog cydweithio rhwng sefydliadau diwylliant a threftadaeth a chyrff fel awdurdodau lleol, i gynyddu cyfleoedd i'r rheini mewn ardaloedd o anfantais economaidd."
- Mae Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru ymhlith y partneriaid allweddol sy'n cyfrannu at roi rhaglen Cyfuno ar waith.
- Gweler tudalennau gwe Rhaglen Cyfuno llyw.cymru/cyfuno am drosolwg o'r rhaglen gyfredol a mentrau diweddar a gefnogir gan amrywiaeth o bartneriaid lleol a chenedlaethol.

## Sefydliadau Cymunedol

- Gall natur sefydliad cymunedol amrywio yn dibynnu ar ei strwythur a ffactorau eraill e.e. oes cyfansoddiad ffurfiol, a yw'n sefydliad er elw neu ddim er elw ac ati.
- Yn gyffredinol, mae sefydliadau cymunedol yn gweithio tuag at newidiadau positif yn eu cymunedau gan weithredu ar lawr gwlad, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r math hwn o waith.
- Caiff cymunedau eu creu a'u profi mewn amryw ffyrdd. Grŵp penodol o bobl sy'n gysylltiedig â'i gilydd yw cymuned: naill ai pobl sy'n byw yn yr un lle daearyddol, a/neu sydd yn rhannu hunaniaeth, a/neu sydd â diddordeb neu arfer arbennig yn gyffredin.